**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Fercher, 22 Ionawr 2020
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Presennol:**

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Rhian Jones | Biwmares |
| Cyng Stan Zalot | Biwmares |
| Cyng Eurfryn Davies | Cwm Cadnant |
| Cyng Brian Potter | Llanbadrig |
| Cyng Arfon Wyn | Llanddyfnan |
| Cyng Dafydd Griffiths | Llaneilian |
| Cyng Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Cyng J E Lewis | Llangefni; Bodffordd |
| Cyng Margaret Thomas | Llangefni |
| Sydna Roberts (Clerc) | Llannerch-y-medd |
| Cyng Dafydd Idriswyn | Penmynydd |
| Eifion H Jones (Clerc) | Pentraeth |
| Cyng Ella Fisk | Porthaethwy |
| Cyng Keith Roberts | Trearddur |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |
| Cyng Edna M Jones | Trewalchmai |
| Margaret Price (Clerc) | Trewalchmai |
| Cyng Gordon Brown | Y Fali |
| Cyng Mavis Swaine-Williams | Y Fali |
| Gwenda Owen (Clerc) | Y Fali |

**Partneriaid / Rhanddeiliaid eraill y Cyngor** (a wahoddwyd ar gyfer eitem 3):

| | |
|---|---|
| Jackie Blackwell | Canolfan Cynghori Ynys Môn |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Llinos Medi | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Cyng Robin Williams | Deilydd Portffolio Cyllid (ar gyfer eitem 3) |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr |
| Dylan Williams | Dirprwy Brif Weithredwr |
| Marc Jones | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Carol Wyn Owen | Rheolwr Polisi a Strategaeth |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawyd Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr, i'w gyfarfod cyntaf o'r Fforwm.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyng Gordon Warren, Amlwch
Cyngor Tref Caergybi
Cyng Dewi ap Rhobert, Llanddyfnan
Cyng Delyth Owen, Llanfaelog

**Partneriaid / Rhanddeiliaid eraill y Cyngor**

Rhun ap Iorwerth, AC
Virginia Crosbie, AS
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
GwE
Cyngor Chwaraeon Cymru
Coleg Llandrillo Menai

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng Meirion Jones – Deilydd Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant; Fôn Roberts – Pennaeth Plant a Theuluoedd

## 1. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 fel rhai cywir.

Yn codi:

## 1.1 Toiledau Cyhoeddus – Y Dreth Fusnes

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) at Atodiad 1 i gofnodion y cyfarfod diwethaf, sef nodyn esboniadol yn datgan y byddai pawb sy'n darparu toiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yn derbyn 100% o ryddhad o'r ardrethi busnes o gychwyn 2020/21. Fel diweddariad, er fod y nodyn esboniadol yn gywir ym mis Gorffennaf, eglurwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu symud ymlaen gyda'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Rhoddir isod ddatganiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y pwnc:

*"Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu eithrio adeiladau toiledau cyhoeddus pwrpasol yng Nghymru rhag talu ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2020. Y bwriad oedd cyflwyno'r eithriad newydd drwy ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU; fodd bynnag, fe wyddom erbyn hyn y bydd*


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

*Etholiad gyffredinol yn cael ei gynnal diwedd y flwyddyn hon. Mae'n dal yn fwriad gan Lywodraeth Cymru ddod o hyd i gyfle deddfwriaethol i gyflwyno'r eithriad hwn rywbryd yn y dyfodol. Mae'r penderfyniad polisi hwn yn cefnogi ein hymrwymiad i roi mynediad at doiledau at defnydd y cyhoedd o dan Ran 8 o Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, er mwyn helpu i gadw cyfleusterau yn agored i drigolion ac ymwelwyr yng Nghymru. "*

**Cytunwyd y byddai'r cynghorau tref a chymuned yn cael gwybod os bydd y sefyllfa'n newid.**

## 3. Cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2020/21

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr (Swyddogaeth) Adnoddau yn egluro'r sefyllfa gyfredol o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf, ynghyd â chynigion drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb 2020/21.

### Cyllideb Refeniw 2020/21

Eglurwyd bod setliad cyllidebol gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau'r angen i weithredu arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn ddigonol er mwyn bodloni costau cynyddol a'r angen i fuddsoddi yn y gwasanaethau sy'n dal i wynebu pwysau ariannol sylweddol.

Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/21 yn edrych i amddiffyn gwasanaethau sydd o dan bwysau, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau oedolion. Mae'r cynigion hyn yn dod i bron £343,000. Amlinellir isod gynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith:

- Derbyn y man cychwyn ar gyfer Cyllideb 2020/21 fel £142.203m
- Gweithredu £343k o arbedion cyllidol / incwm ychwanegol (mae'r incwm ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu £83k ychwanegol drwy gynyddu ffioedd parcio)
- Ymgynghori ar godi'r Dreth Gyngor rhwng 4.5% a 5%
- Y Pwyllgor Gwaith i benderfynu sut i ddyrannu unrhyw arian dros ben pan benderfynant ar gynnig y gyllideb derfynol

Eglurwyd bod y cynigion yn seiliedig ar setliad dros dro gan na fydd y setliad terfynol ar gael gan Llywodraeth Cymru tan fis Chwefror, ond ni ddisgwylir unrhyw newidiadau mawr. O ran y dyfodol, nodwyd nad oedd arwydd ar gael hyd yn hyn o ran lefel setliadau y tu hwnt i 2020/21. O bosibl, bydd y sefyllfa'n gliriach erbyn Chwefror/Mawrth eleni.

Amlinellir isod y prif bwyntiau a gyfyd yn ystod y drafodaeth ddilynol ar y gyllideb refeniw:



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## (1) Cynyddu ffioedd parcio

Gofynnwyd am y rhesymeg dros amrywio canrannau'r cynnydd i ffioedd parcio yn hytrach nag un cynnydd cyffredin ar draws pob maes parcio ar yr ynys. Eglurodd yr Arweinydd bod y gwasanaeth Priffyrdd wedi edrych tuag at gael cysondeb ar draws y rhanbarth o ran prisiau.

Mynegwyd pryder o ran cynyddu ffioedd y meysydd parcio sydd mewn trefi oherwydd y problemau sy'n bodoli eisoes gyda siopau'n gorfod cau (Llangefni; Bodffordd). I'r gwrthwyneb, cafwyd sylw hefyd mai gwerthu dros y rhyngrwyd oedd yn achosi'r problemau mwyaf i siopau, nid costau parcio (Biwmares).

Gwnaed sylw bod peiriannau talu am barcio ar yr ynys wedi dyddio bellach ac angen eu huwchraddio i'w gwneud hi'n haws i bobl dalu am barcio (Y Fali). Gofynnwyd hefyd am eglurhad o ran costau gweinyddu (gwagio peiriannau, cynnal a chadw ayyb). Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod bwriad i gychwyn uwchraddio'r peiriannau yn raddol, lle bydd modd talu gyda cherdyn neu, yn y pendraw, trwy Ap Môn. O ran costau, nodwyd bod trefniadau newydd yn cael eu treialu gan y gwasanaeth ar hyn o bryd o ran gorfodaeth a bod costau cynnal a chadw'r meysydd parcio'n rhan o gyllideb cynnal a chadw cyffredinol y gwasanaeth Priffyrdd.

Gofynnwyd am gefnogaeth gan y Cyngor i drosglwyddo maes parcio yn Llanfairpwll o fod yn un di-dal i fod yn faes parcio 'talu ac arddangos'. **Cytunodd y Prif Weithredwr y dylid edrych i mewn i hyn.**

## (2) Y Dreth Gyngor / Trethi Busnes

Gofynnwyd i'r Cyngor adolygu eu trefniadau ar gyfer sicrhau nad yw tai gwyliau sydd wedi'u cofrestru fel busnesau'n derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff domestig (Biwmares). Ymatebodd yr Arweinydd y byddai'n ddefnyddiol petai cymunedau'n rhannu gwybodaeth leol am unrhyw achosion o'r fath. **Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'r broses fewnol yn cael ei hasesu o ran effeithiolrwydd yn y lle cyntaf.**

## (3) Premiwm y Dreth Gyngor

Gofynnwyd os oedd premiwm y Dreth Gyngor yn mynd i barhau ar yr un lefel â 2019/20 (35% i ail gartrefi a 100% i eiddo gwag tymor hir) a beth oedd effaith gweithredu'r premiwm y llynedd (Trearddur). Eglurwyd y byddai'r un lefelau'n parhau. O ran effaith y premiwm, eglurwyd bod angen data ar gyfer blwyddyn gyfan er mwyn canfod yr effaith ariannol gwirioneddol.

Gofynnwyd am wybodaeth am y nifer o dai sydd wedi newid o eiddo domestig i fusnesau ers cyflwyno'r Premiwm (Llaneilian). **Cytunwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Fforwm.**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Gofynnwyd am ddiweddariad o ran gofyn i Lywodraeth Cymru gryfhau'r mannau gwan yn y polisi premiymau sy'n galluogi perchnogion i drosglwyddo eiddo domestig i fod yn eiddo masnachol (Trearddur). Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) bod y Cyngor hwn, ynghyd â Chynghorau Gwynedd a Cheredigion, wedi codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru a oedd o'r farn nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau gan fod y sefyllfa'n cael ei monitro gan y Swyddfa Prisiant. Ychwanegodd y Deilydd Portffolio Cyllid y penderfynwyd cyfyngu'r cynnydd i 35% er mwyn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y byddai perchnogion yn cymryd mantais o'r mannau gwan yn y polisi.

**Cyllideb Gyfalaf 2020/21**

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) bod y Cynllun Cyfalaf wedi'i rannu'n 5 elfen:

- Prosiectau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol, lle rhoddir blaenoriaeth i fuddsoddi mewn asedau presennol, sef:
    - Adeiladau'r Cyngor ac ysgolion
    - Cerbydau
    - TG
    - Priffyrdd
    - Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Mân-ddaliadau
- Ysgolion yr 21ain ganrif
- Gwelliannau Hamdden
- Cyfrif Refeniw Tai

Cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2020/21 yw £38.235m a'r argymhelliad yw y dylid defnyddio £36.903m, gan adael balans o £1.332m heb ei ddefnyddio.

Cyfeiriwyd at absenoldeb prosiectau gwyrdd yn y rhaglen gyfalaf a gofynnwyd beth oedd bwriad y Cyngor o ran buddsoddi mewn diogelu'r hinsawdd (Llanfairpwll). Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y Cyngor eisoes wedi cyflwyno nifer o fentrau i leihau lefelau carbon (ee cerbydau trydan, goleuadau stryd LED). Eglurodd y byddai mwy o grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer prosiectau gwyrdd ond bod eu hamserlenni ar gyfer hawlio grantiau'n tueddu i fod yn dynn iawn. Oherwydd hynny, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi er mwyn bod mewn sefyllfa i symud ymlaen ar unwaith pan y bydd grantiau ar gael.

Croesawyd bwriad y Cyngor i newid cerbydau graeanu'n raddol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn lledaenu'r gost a gofynnwyd beth oedd bwriad y Cyngor o ran newid cerbydau wedi hynny (Llaneilian). Eglurwyd y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu maes o law.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Cytunwyd y byddai copi o'r cyflwyniad ar y gyllideb yn cael ei gylchredeg i'r holl gynghorau tref a chymuned ar 23 Ionawr, yn ogystal â chyda'r cofnodion, ac fe anogwyd y cynghorau i ymateb i'r ymgynghoriad a fyddai'n dod i ben ar ddydd Gwener, 7 Chwefror.**

## 4. Pencampwyr Iaith Gymraeg

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyng Dafydd Idriswyn (yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Cangen Ynys Môn, Un Llais Cymru) a Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth y Cyngor, ar Fforwm Iaith Ynys Môn a phenodi pencampwyr iaith.

Amlinellir y prif bwyntiau isod:

Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn yn fforwm annibynnol sy'n bodoli er mwyn rhoi ffocws strategol i'r Iaith Gymraeg ar yr ynys ac fe'i sefydlwyd gan y Cyngor Sir mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith a phartneriaid allweddol eraill. Nodwyd bod Menter Iaith Môn wedi cyrraedd rhestr fer i ennill gwobr genedlaethol i Fentau Iaith am eu gwaith ar y Fforwm.

Mae Cadeirydd y Fforwm yn annibynnol ac mae'r Fforwm yn cyfarfod yn fisol. Mae rôl a chyfrifoldeb y Fforwm yn cynnwys:

- Cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth *'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr'* trwy'r weledigaeth leol i weld cynnydd yn y nifer sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg (erbyn Cyfrifiad 2021 bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001);

- Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;

- Datblygu a monitro'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021

Mae cynllun gweithredu'r strategaeth yn cynnwys un targed i'r cynghorau tref a chymuned – penodi pencampwr y Gymraeg. Nodwyd bod 39 o'r 40 cyngor bellach wedi penodi pencampwr ac y cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda'r pencampwyr iaith ym mis Tachwedd 2019. Y cam nesaf fydd casglu gwybodaeth am broffil iaith pob cyngor er mwyn eu clystyrru yn ôl cyfrwng iaith. Bwriedir cynnal cyfafod arall gyda'r pencampwyr yn y gwanwyn.

O ran y Cyngor Sir, eglurwyd mai'r nod yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth fewnol yn raddol. Mae rhaglen dreigl o weithio'n fwriadus efo un gwasanaeth ar y tro mewn lle, er mwyn cynnig cefnogaeth ymarferol, adnabod pencampwyr iaith, hybu sgiliau dwyieithog, gwella gofal cwsmer a chydymffurfio gyda'r Safonau Iaith Gymraeg. Nodwyd bod Comisiynydd y Gymraeg wedi datgan yn ddiweddar bod y Cyngor Sir ar y trywydd cywir o ran hyn.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 5. Gwasanaeth Gwarchod y Gymdogaeth OWL Cymru

Tynnwyd sylw'r Fforwm at y ffaith bod OWL Cymru wedi cylchredeg neges yn uniongyrchol at yr holl gynghorau tref a chymuned ar 18 Rhagfyr 2019. Roedd OWL Cymru yn gofyn am gefnogaeth ariannol gan y cymunedau i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, gan nodi gwahanol opsiynau er mwyn cyflawni hyn.

Fel cefndir, eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y gwasanaeth wedi bod mewn lle ers peth amser ac yn cael ei gydgordio gan yr Heddlu ar un adeg. Fodd bynnag, y farn o ran y Cyngor Sir oedd bod technoleg wedi symud ymlaen erbyn hyn, gydag amryw o ddulliau cyfathrebu eraill ar gael. Wedi dweud hynny, nodwyd mai mater i'r cynghorau unigol fydd penderfynu sut y maent yn dymuno ymateb i gais OWL Cymru.

## 6. Cyfarfod nesaf y Fforwm

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar **nos Iau, 30 Ebrill 2020 am 7 yh yn Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch**, yn unol â phenderfyniad y Fforwm ar 18 Gorffennaf 2019. Nodwyd y gobeithir ymweld â gwahanol ardaloedd yn eu tro.

## 7. Unrhyw fater arall

Dim i'w drafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 yh.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2020/21
# Revenue and Capital Budget 2020/21

Marc Jones
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/
Head of Function (Resources)
Ionawr / January 2020

# CYLLIDEB REFENIW 2020/21 / REVENUE BUDGET 2020/21

## Setliad Llywodraeth Leol 2020/21
## Local Government Settlement 2020/21

| | | Ynys Môn / Anglesey £'000 | Cymru / Wales £'000 |
|---|---|---|---|
| **CAC 2019/20** | **AEF 2019/20** | **95,791** | **4,237,431** |
| Addasiad am Sail y Dreth | Taxbase Adjustment | 325 | 0 |
| **Trosglwyddiadau i Fewn** | **Transfers in** | | |
| Grant Pensiynau Athrawon | Teacher's Pension Grant | 887 | 39,112 |
| Grant Rheoli Risg Arfordirol | Coastal Risk Management Grant | 0 | 151 |
| Grant Ariannu Costau Nyrsio | Nursing Cost Funding Grant | 48 | 1,900 |
| Grant Cyflog Athrawon | Teacher's Pay Grant | 273 | 12,018 |
| **CAC 2019/20 Wedi Addasu** | **Adjusted AEF 2019/20** | **97,324** | **4,290,612** |
| Cyllid Ychwanegol | Additional Funding | 3,681 | 183,832 |
| **CAC 2020/21** | **AEF 2020/21** | **101,005** | **4,474,444** |
| % Cynnydd | % Increase | 3.8% | 4.3% |

## Setliad Llywodraeth Leol 2020/21
## Local Government Settlement 2020/21

| | | Ynys Môn / Anglesey 2019/20 £'000 | Ynys Môn / Anglesey 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asesiad Gwariant Safonol** | **Standard Spending Assessment** | **134,023** | **142,316** |
| **Llai** | **Less** | | |
| Treth Cyngor | Council Tax | (38,501) | (41,311) |
| CAC | AEF | 95,522 | 101,005 |
| Cyllid Ychwanegol | Top Up Funding | 269 | 0 |
| **CAC Terfynol yn cynnwys Cyllid Ychwanegol** | **Final AEF including Top Up** | **95,791** | **101,005** |
| Sail y Dreth | Taxbase | 30,876 | 30,927 |
| Treth Cyngor Safonol Cymru | Standard Wales Council Tax | £1,246.94 | £1,335.76 |
| **% Cynydd yn Dreth Cyngor Safonol Cymru** | **% Increase in Standard Wales Council Tax** | **+ 6.5%** | **+ 7.1%** |

## Cyllideb Ddi-Symud 2020/21
## Standstill Budget 2020/21

| | | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Terfynol 2019/20** | **Final Budget 2019/20** | | **135,210** |
| **Newidiadau Ymrwymedig** | **Committed Changes** | | **1,476** |
| Costau Staffio (yn cynnwys Hicymau Cyflog, Dyfarniad Cyflog a newidiadau i cyfraniadau pensiwn) | Staffing Costs (incl Increments, Pay Award and Changes to Pension Contributions) | | 1,893 |
| Chwyddiant nad yw'n Gyflogau | Non Pay Inflation | | 1,594 |
| **CYLLIDEB DDISYMUD 2020/21 CYN PWYSAU** | **STANDSTILL BUDGET 2020/21 BEFORE PRESSURES** | | **139,973** |
| **Pwysau Cyllideb** | **Budget Pressures** | | |
| Gwasanaeth Gofal Oedolion | Adult Care Services | 980 | |
| Cludiant Ysgolion | School Transport | 250 | |
| Integreiddio Uwchradd | Secondary Integration | 200 | |
| Gwrthdroi toriad i 2019/20 cyllideb ysgolion dirprwyedig (I'w gadarnhau) | Reverse Cut to 2019/20 Delegated Schools Budget (To be decided) | 800 | |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllideb** | **Total Budget Pressures** | | **2,230** |
| **CYLLIDEB DDISYMUD DDIWYGIEDIG 2020/21** | **REVISED STANDSTILL BUDGET 2020/21** | | **142,203** |

## Cyd-Bwyso'r Gyllideb Refeniw
## Balancing the Revenue Budget

| | | £ |
|---|---|---|
| **CYLLIDEB DDISYMUD DDIWYGIEDIG 2020/21** | **REVISED STANDSTILL BUDGET 2020/21** | **142,203** |
| CAC 2020/21 | AEF 2020/21 | (101,005) |
| BALANS I'W ARIANNU TRWY DRETH CYNGOR | **BALANCE TO BE FUNDED FROM COUNCIL TAX** | **41,198** |
| Cyllideb Treth Cyngor 2019/20 (wedi addasu am y newid yn sail y dreth) | 2019/20 Council Tax Budget (adjusted for the change in the taxbase) | (39,370) |
| **DIFFYG CYLLID (cyn cynnydd yn y dreth gyngor)** | **FUNDING SHORTFALL (before an increase in Council Tax)** | **1,828** |

## Effaith y Gwahanol Lefelau o Gynnydd yn y Dreth Cyngor ar y Diffyg Cyllidebol
## Impact of Various Council Tax Increases on the Funding Shortfall

| % Cynnydd % Increase | Y Dreth Cyngor Council Tax £'m | Diffyg / (Gwarged) Cyllidebol Funding Shortfall / (Surplus) £'m | Band D 2020/21 £ | Effaith Wythnosol ar Fand D Weekly Effect on Band D £ | Cyfanswm y Cynnydd ym Mand D Total Increase in Band D £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.0 | 39.765 | 1.433 | 1,261.08 | 0.24 | 12.51 |
| 1.5 | 39.961 | 1.237 | 1,267.29 | 0.36 | 18.72 |
| 2.0 | 40.157 | 1.041 | 1,273.50 | 0.48 | 24.93 |
| 2.5 | 40.355 | 0.843 | 1,279.80 | 0.60 | 31.23 |
| 3.0 | 40.551 | 0.647 | 1,286.01 | 0.72 | 37.44 |
| 3.5 | 40.750 | 0.448 | 1,292.31 | 0.84 | 43.74 |
| 4.0 | 40.946 | 0.252 | 1,298.52 | 0.96 | 49.95 |
| 4.5 | 41.141 | 0.057 | 1,304.73 | 1.08 | 56.16 |
| 4.84 | 41.198 | 0.000 | 1,306.53 | 1.11 | 57.93 |
| 5.0 | 41.340 | (0.142) | 1,311.03 | 1.20 | 62.46 |

## Effaith Gerio
## / Impact of Gearing

- Ar hyn o bryd, ariennir cyllideb y Cyngor 71% gan Lywodraeth Cymru a 29% o'r dreth gyngor
- Er enghraifft, os yw gofyniad cyllideb y Cyngor yn codi 5% ond mai dim ond 3% y mae grant LIC yn codi, yna mae'n rhaid dod o hyd i'r diffyg o 2% o'r 29% sy'n weddill yn ychwanegol i'r 5%, sy'n golygu bod canran y cynnydd yn y dreth gyngor yn sylweddol uwch

- Currently the Council's budget is funded 71% from Welsh Government and 29% from Council Tax
- If for example, the Council's budget requirement rises 5% but the WG grant only rises 3% then the 2% shortfall has to be found from the remaining 29%, in addition to the 5%, which means that the percentage increase in Council Tax is significantly higher

## Effaith Gerio / Impact of Gearing

| | Cyllideb / Budget £'m | Grant LIC / WG Grant £'m | Treth Cyngor / Council Tax £'m |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 100.00 | 79.00 | 21.00 |
| | + 5% | +4% | + 8.76% |
| 2020/21 | 105.00 | 82.16 | 22.84 |

Os yw grant LIC 1% yn llai na'r cynnydd yn y gyllideb, mae hyn yn arwain at orfod codi 3.76% yn ychwanegol ar y dreth gyngor, ar ben y 5% i wneud i fyny am y diffyg

If the WG Grant is 1% less than the rise in the budget, this leads to the Council Tax having to rise by an additional 3.76%, on top of the 5% to make up for the shortfall

## Effaith Gerio/ Impact of Gearing

| | | Cyllideb / Budget £'m | Grant LIC / WG Grant £'m | Treth Cyngor / Council Tax £'m |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb 2019/20 | 2019/20 Budget | 135.210 | 95.791 | 39.419 |
| Grantiau & Newid yn Sylfaen y Dreth | Grants & Change in Taxbase | +1.484 | +1.533 | - 0.049 |
| **Cyllideb Ddiwygiedig 2019/20** | **Revised Budget 2019/20** | **136.694** | **97.324** | **39.370** |
| **Cyllideb Ddi-Symud 2020/21** | **Standstill Budget 2020/21** | **142.203** | **101.005** | **41.198** |
| Cynnydd | Increase | + 5.509 | + 3.681 | + 1.828 |
| % Cynnydd | % Increase | +4.05% | +3.79% | +4.64% |

I ariannu'r holl gostau ychwanegol heb godi'r dreth gyngor, byddai'n rhaid i grant LIC godi 5.66%

To fund all the additional costs without raising the Council Tax, the WG grant would have to rise by 5.66%

## Cynnig Cychwynol y Pwyllgor Gwaith
## The Executive's Initial Budget Proposal

- Derbyn y man cychwyn ar gyfer cyllideb 2020/21 fel £142.203m
- Gweithredu £343k o arbedion cyllidol / incwm ychwanegol.
- Mae'r incwm ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu £83k ychwanegol drwy cynyddu ffioedd parcio
- Ymgynghori ar godi'r Dreth Cyngor rhwng 4.5% a 5%
- Y Pwyllgor Gwaith i benderfynnu sut i ddyrannu unrhyw arian dros ben pan benderfynant ar gynnig y gyllideb derfynol

- Accept the starting point for the 2020/21 budget as £142.203m
- Implement £343k of budget savings / additional income.
- The additional income includes generating an additional £83k through increasing car parking fees
- To consult on raising the Council Tax between 4.5% and 5%
- Executive to decide on how to allocate any surplus funding when they decide on the final budget proposal

## 2021/22 ac Ymlaen
## 2021/22 and Beyond

- Dim arwydd ar setliadau yn y dyfodol tu hwnt i 2020/21 – o bosibl yn gliriach ar ôl y gyllideb yn Chwefror/Mawrth
- Effaith Brexit yn dal i fod yn anhysbys – gall llymder ddychwelyd
- Mae'n bosibl y bydd etholiadau Cynulliad Cymru yn 2021 ac etholiadau llywodraeth leol yn 2022 yn effeithio ar gyllid yn y dyfodol
- Amcangyfrifir y bydd y costau'n codi £5m yn 2021/22 a £3.6 miliwn yn 2022/23. A fydd CAC yn codi gymaint â hyn? Byddai 2% yn CAC ond yn ychwanegu tua £2m y flwyddyn

- No indication on future settlements beyond 2020/21 – possibly clearer after the budget in February / March
- Effect of Brexit still a big unknown – austerity may return
- Welsh Assembly elections in 2021 and Local Government elections in 2022 may have an impact on future funding
- Costs estimated to rise by £5m in 2021/22 and £3.6m in 2022/23. Will AEF rise by this much? A 2% in AEF would only add around £2m per annum

# CYLLIDEB CYFALAF 2020/21 / CAPITAL BUDGET 2020/21

## Ffynonellau Cyllid
## Funding Sources

- Grant Cyfalaf Cyffredinol – darparwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad Llywodraeth Leol
- Benthyca â chymorth – lefel y benthyca y gall y Cyngor ymgymryd ag ef lle mae costau refeniw benthyca yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- Derbyniadau cyfalaf – arian a geir o werthu asedau
- Cronfa Wrth Gefn y Cyngor
- General Capital Grant – provided by Welsh Government as part of the Local Government settlement
- Supported Borrowing – the level of borrowing which the Council can undertake where the revenue costs of borrowing are funded by Welsh Government
- Capital Receipts – Funds that are received from the sale of assets
- Council Reserves

## Ffynonellau Cyllid
## Funding Sources

- Benthyca gyda chymorth ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif – darparwyd gan Lywodraeth Cymru – ar hyn o bryd 33.3% o gost y prosiect
- Ysgolion yr 21ain ganrif grant Llywodraeth Cymru – ar hyn o bryd mae 16.7% o gost y prosiect
- Benthyca heb gymorth ar gyfer yr 21ain ganrif – ar hyn o bryd 50% o gost y prosiect – rhaid i'r cyngor ariannu cost refeniw
- Grantiau allanol – gall fod yn grant o 100% neu gallai fod angen arian cyfatebol – gallant ddod o LIC, yr UE, CDL ac ati.
- Cronfa cyfrif refeniw tai a gwarged refeniw yn ystod y flwyddyn-wedi'i neilltuo i brosiectau CRT
- Benthyca heb gymorth y cyfrif refeniw tai-wedi'i neilltuo i brosiectau CRT – rhaid i gost refeniw gael ei ariannu gan y CRT
- 21st Century Schools Supported Borrowing – Provided by Welsh Government – currently 33.3% of the project cost
- 21st Century Schools Welsh Government Grant – currently 16.7% of the project cost
- 21st Century Unsupported Borrowing – currently 50% of the project cost – revenue cost must be funded by the Council
- External Grants – may be 100% grant or could require match funding – can come from WG, EU, HLF etc.
- HRA Reserve and In Year Revenue Surplus – ring fenced to HRA projects
- HRA Unsupported Borrowing – ring fenced to HRA projects – revenue cost must be funded by HRA

## Cynllun Cyfalaf 2020/21
## Capital Plan 2020/21

- Cynllun Cyfalaf wedi'i rannu'n 5 elfen
  - Prosiectau Cyfalaf y Gronfa Cyffredinol
  - Manddaliadau
  - Ysgolion yr 21ain ganrif
  - Gwelliannau Hamdden
  - CRT
- Capital Plan Broken Down into 5 elements
  - General Fund Capital Projects
  - Smallholdings
  - 21st Century Schools
  - Leisure Improvements
  - HRA

## Cyfalaf y Gronfa Cyffredinol
## General Fund Capital

- Rhoddir blaenoriaeth i fuddsoddi mewn asedau presennol
  - Adeiladau'r Cyngor ac Ysgolion
  - Cerbydau
  - TG
  - Priffyrdd
  - Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Priority is given to investing in existing assets
  - Council Buildings and Schools
  - Vehicles
  - IT
  - Highways
  - Disabled Facilities Grants

## Cyllideb Arfaethedig 2020/21 – Buddsoddi Mewn Asedau Presennol Proposed Budget 2020/21 – Investing in Existing Assets

| | | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Disabled Facilities Grants | 638 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Ysgolion | Disabled Access in Schools | 300 |
| Adnewyddu Ysgolion | Refurbishment of Schools | 1,000 |
| Adnewyddu Adeiladau Eraill | Refurbishment of Non School Buildings | 600 |
| Ail Wynebu Priffyrdd (£590k wedi'i ariannu o grant Llywodraeth Cymru) | Highways Resurfacing (£590k funded from WG Grant) | 1,850 |
| Cerbydau | Vehicles | 480 |
| Asedau T.G | I.T Assets | 292 |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynlluniedig** | **Total Planned Expenditure** | 5,158 |

## Cyllideb arfaethedig 2020/21 – Prosiectau Unwaith ac am Byth Proposed Budget 2020/21 – One Off Projects

| Prosiectau Unwaith ac am Byth | Disgrifiad | One Off Projects | Description | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Prosiectau datblygu economaidd a lles amgylcheddol | Arian cyfatebol | Economic Development and environmental well being projects | Match funding | 95 |
| Llithrfa Porth Wrach | Gosod camerâu gorfodi | Porth Wrach Slipway | Install enforcement cameras | 30 |
| Plas Mona | Adnewyddu | Plas Mona | Refurbishment | 80 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | Arian cyfatebol | Flood Relief Schemes | Match Funding | 573 |
| Partneriaeth tirlun Caergybi | Cynllun a ariennir gan grant | Holyhead Landscape Partnership | Grant funded scheme | 1,146 |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynlluniedig** | | **Total Planned Expenditure** | | 1,924 |

## Gwella Cyfleusterau Hamdden
## Leisure Facilities Improvement

- Bydd y cynllun yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo yn fuan
- Gall gymryd nifer o flynyddoedd i weithredu
- Cyllideb arfaethedig yn rhyddhau £250k i ddechrau gweithredu'r cynllun.
- Plan will be going to the Executive for approval shortly
- May take a number of years to implement
- Proposed budget releases £250k to start the implementation of the plan.

## Manddaliadau / Smallholdings

- Parhau i ariannu gwelliannau o'r gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw cyfrifon refeniw ac o dderbyniadau cyfalaf
- Am 2020/21 o dderbyniadau cyfalaf amcangyfrifedig o £ 100k
- Continue to fund improvements from the revenue account repairs and maintenance budget and from capital receipts
- For 2020/21 estimated capital receipts of £100k

## Ysgolion yr 21ain Ganrif / 21st Century Schools

- Os cymeradwyir cynlluniau yn dilyn ymgynghoriad, y nod fyddai gwario £ 9.039 m yn 2020/21
- 50% wedi'u hariannu o grantiau Llywodraeth Cymru a benthyca â chymorth a 50% o fenthyciadau heb gymorth a derbyniadau cyfalaf o werthu hen safleoedd ysgol
- If plans are approved following consultation the aim would be to spend £9.039m in 2020/21.
- 50% funded from WG grants and supported borrowing and 50% from unsupported borrowing and capital receipts from the sale of former school sites

### Cyfrif Refeniw Tai / Housing Revenue Account

| | | £'m |
|---|---|---|
| Gwaith Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Gwelliannau SATC | Planned Maintenance and WHQS Improvements | 6.645 |
| Datblygiadau newydd a phrynu eiddo o dan yr hawl i brynu | New Developments and Purchase of ex RTB properties | 10.493 |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynlluniedig** | **Total Planned Expenditure** | **17.138** |

### Crynodeb o'r Cyllideb Cyfalaf 2020/21 / Summary of Capital Budget 2020/21

| | | £'m |
|---|---|---|
| Cynnal Asedau Presennol | Maintaining Existing Assets | 5.158 |
| Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth | One Off Capital Projects | 1.924 |
| Gwella Cyfleusterau Hamdden | Leisure Facilities Improvement | 0.250 |
| Manddaliadau | Smallholdings | 0.100 |
| Ysgolion 21ain Canrif | 21st Century Schools | 9.039 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Housing Revenue Account | 17.138 |
| **Cyfanswm Gwariant Newydd 2020/21** | **Total New Expenditure 2020/21** | **33.609** |
| Llithriad o 19/20 | Slippage from 19/20 | 3.294 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2020/21** | **Total Budget for 2020/21** | **36.903** |